*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 Rhif 1884 (Cy.193)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Buddsoddiadau wedi'u Cymeradwyo) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2002

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *18 Gorffennaf 2002* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Medi 2002* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 66(1)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(**1**) sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru(**2**):

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Buddsoddiadau wedi'u Cymeradwyo) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2002 a deuant i rym ar 1 Medi 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

### Diwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Buddsoddiadau wedi'u Cymeradwyo) 1990

**2.**—(1) Diwygir Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Buddsoddiadau wedi'u Cymeradwyo) 1990(**3**) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 1(2) (dehongli)—

(a) ar ôl y diffiniad o “bill of exchange”, rhoddir—

> ““competent authority” means an authority which is responsible for maintaining the official list in an EEA State;”;

(b) ar ôl y diffiniad o “deposit-taker”, rhoddir—

> ““EEA State” has the meaning given by Schedule 4 to the Financial Services and Markets Act 2000;(**4**)

(**1**) 1989 p. 42.
(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 1990/426; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1991/501, 2001/3649 a 2002/ 885 (Cy. 100).
(**4**) 2000 p. 8.

(c) ar ôl y diffiniad o "money market fund", rhoddir—

""official list" in relation to the United Kingdom has the meaning given by section 103(1) of The Financial Services and Markets Act 2000 and in relation to any other EEA State means the equivalent list maintained by the competent authority of that State".

(3) Yn rheoliad 2(1)—

(a) ym mharagraff (g), yn lle "Official List of The Stock Exchange" rhoddir "official list maintained by a competent authority"; a

(b) ym mharagraff (h), yn lle "Official List of the Stock Exchange" rhoddir "official list maintained by the competent authority in the United Kingdom".

(4) Yn rheoliad 3, ym mharagraff (3)—

(a) yn is-baragraff (b), yn lle "made; and" rhoddir "made."; a

(b) hepgorir is-baragraff (c).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**5**)

*John Marek*
18 Gorffennaf 2002 — Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**5**) 1998 p. 38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Buddsoddiadau Wedi'u Cymeradwyo) 1990 yn cynnwys rhestr o'r buddsoddiadau a gymeradwyir at ddibenion Rhan IV o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 1990 drwy ymestyn y rhestr o fuddsoddiadau a gymeradwywyd fel ei bod yn cynnwys gwarantau a roddir gan gorff y cyfeirir ato yn Rhan I o'r Atodlen i Reoliadau 1990 sydd wedi cael eu derbyn i'r rhestr swyddogol a gedwir gan yr awdurdodau cymwys yn Aelod-wladwriaethau eraill yr Ardal Economaidd Ewrop.

Yn ogystal, mae'r Rheoliadau hyn yn dileu'r gwahaniaeth mewn perthynas â buddsoddiadau tymor-byr rhwng yr awdurdodau hynny y mae ganddynt dyledion tymor-hwy a'r rhai nad oes ganddynt ddyledion felly.